



Tachwedd 2020


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Lawrlwytho data – 31 Rhagfyr 2020

Gyda'r lawrlwytho data sydd ar ddod ym mis Rhagfyr, gwiriwch fod eich Cofnodion Staff i gyd yn gywir ac yn gyflawn ar WNWRS.

Y diwrnod cau ar gyfer hyn yw 14 Rhagfyr, oherwydd gwyliau Nadolig.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad yn ystod y flwyddyn anodd hon, a dymunwn Nadolig a Blwyddyn Newydd iach a hapus i chi i gyd.



Canolbwyntio ar: Staff nad ydynt yn gyflogedig yn uniongyrchol

Os oes gennych unrhyw staff sy'n gweithio yn eich Practis ond nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan eich sefydliad, dylid nodi eu manylion o hyd yn y WNWRS. Ymhlith yr enghreifftiau mae Cymrodyr Academiaidd, gweithwyr Byrddau Iechyd a Fferyllwyr Clwstwr.

Y Camau sydd eu hangen: Rheolwyr Practis i wirio bod gan yr holl staff sy'n gweithio yn eu Practis Gofnod Staff ar y WNWRS. I gael cymorth a chynghor manylach ar sut i gofnodi'r aelodau staff hyn, e-bostiwch:

nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs



Locum Hub Wales
by GP Wales

PEIDIWCH AG ANGHOFIO cofrestru ar Locum Hub Wales - yr ateb i anghenion Meddygon Locwm eich Practis.

Data Meddygon Locwm

Diolch i'r holl Bractisau a ymatebodd i'r Holiadur Lo a anfonwyd y mis diwethaf.

Oherwydd y symud i adroddiadau misol yn y WNWRS, mae data Meddygon Locwm Anfynych bellach wedi'u rhannu'n fisoedd ar wahân.

Rhowch eich data Meddygon Locwm Anfynych yn y misoedd cywir lle bynnag y bo modd, ond os byddwch chi'n colli'r mis perthnasol, cariwch yr oriau drosodd a'u nodi'n gronnus yn y mis canlynol am y tro.

Rydym yn gweithio ar ddatrysiaid gwahanol ar gyfer cofnodi data Meddygon Locwm, felly diolch am eich amynedd a byddwch yn barod am fwy o newyddion am hyn.



Syniadau ac Awgrymiadau

Mae eich trosolwg Tabl Staff ar y WNWRS yn cael ei ddiolli'n



awtomatig yn ôl y Grŵp Staff. Os ydych chi am newid hyn i drefn yr wyddor, cliciwch ar y 3 llinell yn y blwch teitl Enw'r Aelod Staff, yna cliciwch ar drefnu'n esgynnol. Mae gan bob blwch teitl y swyddogaeth hon, felly didolwch eich Staff yn ôl eich dymuniad.

Gallwch hefyd newid faint o resi o ddata a welwch, trwy glicio ar yr opsiwn 'dangos rhesi' ar waelod y dudalen a dewis rhifau uwch neu is yn dibynnu ar eich angen a maint y Practis.

www.locumhubwales.co.uk

AWGRYM: Mae Locum Hub Wales yn gweithio orau gyda Google Chrome



GIG CYMRU NHS WALES

Partneriaeth Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth

Shared Services Partnership
Employment Services

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 01792 860489/07815993148
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk